

CA2 Cymraeg – Creu llythyr – Negeseuon digidol

Dyma enghraifft o neges e-bost arall gan Eben, sy'n fwy cryno. Efallai bydd dy fersiwn di yn wahanol. Mae 99 gair yn y neges e-bost yma. Roedd 215 gair yn neges e-bost gyntaf Eben.

AT: sionyn01@serenaur.cymru

ODDI WRTH: ebenrhunmorgan@hwrenet.cymru

PWNC: Trip arbennig!

Helo Siôn,

Bydd y tywydd yn fendigedig am wythnos arall ac ry'n ni wedi penderfynu mynd i wersyllfa i Sir Benfro fory am ychydig ddyddiau. Hoffet ti ddod gyda ni?

Ry'n ni am fynd i'r traeth a cherdded llwybr y glannau a choginio barbyciws.

Byddwn ni'n gadael bore fory tua 10yb ac yn dychwelyd nos Lun erbyn amser swper. Os wyt ti am ddod bydd angen i ti ddod â

- sach gysgu
- dillad sbâr
- pethau ymolchi
- eli haul
- dillad nofio

Mae gyda ni donfwrdd sbâr y galli di ei ddefnyddio.

Rho wybod os wyt ti am ddod.

Eben